

Datblygu Datganiad Budd y Cyhoedd

Sut mae dogfennau strategol sefydliadol perthnasol yn llywio datblygiad 'Datganiad Budd y Cyhoedd' a sut mae'r Datganiad yn cyd-fynd â'r amcanion strategol priodol yn y dogfennau hyn

Mae pum prif ddogfen strategol sefydliadol sydd wedi llywio datblygiad Datganiad Budd y Cyhoedd, Cynllun Strategol 2016-2020, y mae ei themâu yn cael eu datblygu ymhellach yn y Cynlluniau Gweithredol Blyneddol, y Datganiad Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol manylach, ac yn olaf y Strategaeth AU sy'n cael ei gyrru gan Gynllun Strategol cyffredinol y Coleg.

Cenhadaeth y Coleg fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol 2016-2020 yw 'ysbrydoli a chefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn trwy ddarparu addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf' a'n gweledigaeth yw 'bod y dewis gorau i ddysgwyr'. Mae cynnig AU y Coleg yn chwarae rhan bwysig wrth godi dyheadau, gan alluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn trwy ddarparu cyfleoedd i gyflawni cymwysterau lefel uwch, cam na fyddai llawer o ddysgwyr lefel 3 yn ei gymryd yn draddodiadol. Mae'r amgylchedd codi dyheadau a'r amgylchedd cefnogol a ddarperir gan y Coleg yn cael ei gydnabod yn Natganiad Budd y Cyhoedd.

Mae blaenoriaethau allweddol a chyfeiriad strategol cyffredinol y Coleg wedi'u nodi yn ei Gynllun Strategol 2016-2020. Mae'r Cynllun Strategol yn nodi pedwar cyfeiriad strategol craidd a nodau cysylltiedig sy'n helpu'r Coleg i gyflawni ei weledigaeth a'i genhadaeth.

Mae'r cyfeiriad strategol cyntaf yn rhoi'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn ac yn siarad am ddarparu profiad cyfoethog a rhwydwaith cymorth eang i ddysgwyr i'w cynorthwyo i ddelio â'r ystod eang o heriau y byddant yn eu hwynebu. Â ymlaen i siarad am drawsnewid bywydau mewn ffordd gadarnhaol, gan eu harfogi â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a fydd yn gwella eu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Mae gallu gadael y Coleg â chymhwyster lefel uwch yn sicr yn ehangu cyfle cyflogaeth llawer o ddysgwyr ac mae'r thema hon yn cael ei datblygu yn Natganiad Budd y Cyhoedd.

Mae un o'r cyfeiriadau strategol yn ymrwymo i gyflawni'r effaith gadarnhaol uchaf bosibl ar les economaidd a chymdeithasol unigolion yn Abertawe a rhanbarth De Cymru ac mae'n sôn am wneud gwahaniaeth sylweddol ym mywydau'r rhai sy'n dod i'r Coleg. Mae'n ymrwymo i barhau i gryfhau ein cyfraniad i'r agenda sgiliau trwy wella ein prosesau ymgysylltu â chyflogwyr; sicrhau ein bod yn gysylltiedig â'u rhwydweithiau ac mewn cysylltiad â'u hanghenion. Mae Datganiad Budd y Cyhoedd yn disgrifio sut mae'r cwricwlwm AU cyfredol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn y dyfodol wedi bod yn ymatebol i ddiwydiant, wedi'u llywio gan alw'r diwydiant, blaenoriaeth a sectorau sy'n datblygu, gan gynnig meysydd arbenigol i roi mwy o ddewis a chyfleoedd i fyfyrwyr sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd.

Un o'r blaenoriaethau allweddol a nodir yn y cynllun yw datblygu a phrofi ystâd y Coleg yn y dyfodol i ddiwallu anghenion cwsmeriaid. Mae'r buddsoddiad diweddar mewn canolfan AU bwrpasol sy'n darparu amgylchedd cefnogol ac iddo ddiwylliant AU, a ddatblygwyd gyda chymorth dysgwyr AU presennol a dysgwyr AU y dyfodol, yn dangos yr ymrwymiad hwn.

Yn olaf, mae'r Cynllun Strategol yn gosod targedau penodol ar gyfer cyfnod y cynllun sy'n gysylltiedig â thwf mewn cyfleoedd AU a chofrestriadau a chryfhau boddhad dysgwyr. Bydd cyrraedd y targedau hyn yn sicrhau y darperir cynnig cwricwlwm ehangach ac yn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod i mewn i'r farchnad swyddi â chymwysterau lefel uwch.

Yna caiff y themâu a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Strategol eu datblygu ymhellach yng Nghynllun Gweithredol Blynyddol y Coleg gyda chamau gweithredu a thargedau penodol clir yn cael eu gosod bob blwyddyn i sicrhau cynnydd parhaus.

Mae Datganiad Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol manylach hefyd wedi llywio Datganiad Budd y Cyhoedd. Yn y ddwy ddogfen rhoddir cyfrifoldeb ar holl staff y Coleg i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y sefydliad, gydag enghreifftiau o sut y byddwn yn gwneud hyn gan gynnwys:

Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel;

Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill ac i leihau neu gael gwared ar anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;

Gwneud gwasanaethau, cyfleusterau ac addysg yn hygyrch a rhoi cyfle i bawb gyflawni hyd eithaf eu gallu a chymryd rhan ym mywyd y Coleg.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2019-22 ar hyn o bryd mewn drafft, yn aros am gymeradwyaeth, ac yn nodi amcanion ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol rhyw, hil, anabledd ac ailbennu rhywedd a hunaniaeth rhywedd. Mae Datganiad Budd y Cyhoedd yn cysylltu rhai o'r themâu hyn â'r garfan AU yn y Coleg ac yn ceisio mesur cyfraddau cyfranogi grwpiau a dangynrychiolir wedi'u nodi, yn benodol mewn perthynas ag anabledd a hil.